**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd:

| | |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); C Everett (Clerc); R Fairhead a K Roberts (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); B Millington (Dirprwy Reolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1. YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. G Williams | Cyngor Gwynedd |

2. DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3. RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Tân roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fater cyflogau diffoddwyr tân. Atgoffwyd yr aelodau gan y PST am yr wybodaeth gefndirol a bod trafodaethau helaeth wedi digwydd ar lefel genedlaethol ynglŷn â ehangu swydd diffoddwyr tân a chynnydd mewn cyflog. Cyfeiriodd y PST at lythyr gan Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr FBU, dyddiedig 18 Hydref, yn datgan

y gofynion a bod yr Undeb, er mwyn iddo gytuno i ehangu'r swydd, yn ceisio cael 17% o gynnydd yng nghyflog y diffoddwyr tân. Byddai hyn yn cael ei drafod gan Gyd-Gyngor yr NJC yn ei gyfarfod nesaf.

3.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 GORFFENNAF 2018

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Tanau Glaswellt – Rhoddodd y PSTC Fairhead yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y digwyddiadau'n ymwneud â thanau glaswellt dros yr haf. Cafwyd bron i 100% o gynnydd yn nifer y tanau glaswellt o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol; cafwyd pum tân mawr iawn a buwyd yn yr un yn Llantysilio am bron i 70 diwrnod. O ran y gyllideb, esboniodd y PSC MacArthur fod y gwaith ar y tanau glaswellt wedi mynd lawer y tu hwnt i'r gyllideb a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Bydd y swm ychwanegol a ragwelir, yn cynnwys cost staff, tanwydd, bwyd, a thraul ar offer, rhwng £550k a £650k.

5.2 Bydd y broses o benodi i swydd Clerc/Swyddog Monitro yn dechrau ym mis Tachwedd, gyda'r bwriad o gynnal y cyfweliadau yn Ionawr 2019. Bydd angen aelod o'r Panel Gweithredol o bob awdurdod lleol ar gyfer y panel penodi.

6 MONITRO PERFFORMIAD – EBRILL I FEDI 2018

6.1 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau a pherfformiad GTAGC o'u cymharu ag amcanion gwella ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2018-19.

6.2 Aeth y PST Morris â'r aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl am nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt rhwng Ebrill a Medi 2018. Yn gyffredinol, cafwyd cynnydd yng nghyfanswm y tanau, ac roedd y rhan fwyaf o'r cynnydd yn ymwneud â thanau eilaidd; mae'r categori hwn yn cynnwys y tanau glaswellt, a gellir priodoli i'r rheini y cynnydd o 49% o'i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18.

6.3 Yn hanner cyntaf 2017/18, roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt yn llawer uwch na’r arfer, a hynny oherwydd y cynlluniau treialu a phrosiectau ar y cyd yr oedd yr Awdurdod wedi dewis cymryd rhan ynddynt. Yn 2018/19, cafwyd 51% o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau hyn yr aethpwyd atynt o’i gymharu ag yn y flwyddyn flaenorol, a gellir priodoli hyn i’r ffaith fod y Tîm Cymorth Cymunedol a’r gweithgareddau cyd-ymateb wedi dod i ben. Ond mae’r Gwasanaeth yn parhau â’i gytundeb â Heddlu Gogledd Cymru i gynorthwyo i chwilio am unigolion bregus sydd ar goll o gartref; esboniodd y PSTC Fairhead fod Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn am gymorth ac os oes adnodd ar gael, bydd criw yn cael ei anfon i gynorthwyo i chwilio, ac hyd yma mae’r Gwasanaeth wedi cyfrannu at 18 o ddigwyddiadau.

6.4 Er ei bod yn dda nodi bod nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi gostwng 17% o’i gymharu ag yn yr un cyfnod yn 2017/18 (190 i 157) ac na fu unrhyw anafiadau difrifol, bu dwy farwolaeth ddamweiniol mewn cartrefi rhwng Ebrill a Medi 2018. Mewn categorïau eraill o anafiadau, bu gostyngiad yn nifer y bobl y cofnodwyd eu bod wedi cael mân anafiadau a’r rhai a gynghorwyd i gael archwiliad rhagofalus.

6.5 Holodd yr aelodau a oedd yn bosibl codi ffi os canfyddir bod tân yn un bwriadol. Esboniodd y PST fod y ddeddfwriaeth yn atal y Gwasanaeth rhag codi tâl gan fod y mater yn cael ei drin drwy’r system cyfiawnder troseddol.

6.6 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

7 GOSOD Y GYLLIDEB 2019/20

7.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad i’r aelodau i nodi’r broses, y rhagdybiaethau cynllunio a’r amserlenni ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2019/20.

7.2 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am y rheidrwydd i ATA osod ei gyllideb refeniw amcanol ar gyfer 2019/20 yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2018. Mae’r gwaith rhagarweiniol y bydd ei angen i sefydlu’r gyllideb sylfaenol wedi cychwyn, ac mae’n cynnwys adolygu’r lefelau gwariant presennol, y rhagdybiaethau cynllunio allweddol a’r risgiau. Edrychir ar ganfyddiadau’r gwaith hwn yn un o’r gweithdai ar gyfer cynllunio’r gyllideb a gynhelir i’r aelodau ar 16 Tachwedd er mwyn gallu llunio’r gyllideb ddrafft.

7.3 Nodwyd bod rhai o’r materion pwysig i’w hystyried yn cynnwys cyflog, pensiynau a risgiau ariannu cyfalaf. Disgwylir y bydd y costau pensiwn yn cael eu hariannu’n genedlaethol. Er mwyn lliniaru’r risgiau ariannu cyfalaf, edrychir yn fanwl ar y gwariant cyfalaf gan fod hwnnw’n arwain at gostau yn y blynyddoedd i ddod.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi:**

**(i) y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2019/20;**

**(ii) y gweithdai gosod y gyllideb ar gyfer yr aelodau ar 16 Tachwedd;**

**(iii) y dyddiad terfynol i'r ATA gymeradwyo cyllideb refeniw 2019/20.**

8 Y TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLID AR GYFER AWDURDODAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

8.1 Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau gan y Prif Swyddog Tân. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi awgrymu y bydd yn cyhoeddi Papur Gwyn ar y trefniadau cyllid a llywodraethu newydd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru; bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar 13 Tachwedd ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r Senedd. Disgwylir y bydd cyfnod ymgynghori byr yn dilyn. Ond o ran yr amserlenni, mae unrhyw newidiadau parhaol i'r trefniadau ariannol yn annhebygol o ddigwydd ar unwaith felly bydd angen sefydlu trefniadau yn y cyfamser.

8.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

9 AROLYGIAD GAN YR AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH

9.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am yr arolygiad sydd ar y gweill yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

9.2 Dywedwyd yr aelodau bod y Gwasanaeth wedi cael gwybod ym mis Gorffennaf fod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn bwriadu cynnal arolygiad o GTAGC fel rhan o'i raglen o arolygiadau o Wasanaethau Tân ac Achub ledled y DU. Cynhelir yr arolygiad ar 24 a 25 Hydref 2018. Nodwyd bod y paratoadau, gan gynnwys casglu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn cael eu goruchwylio gan grŵp llywio o dan arweiniad swyddog.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

10.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ar gofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

10.2 Cafodd yr adroddiad ei ddarparu er mwyn rhoi gwybod i aelodau'r Panel Gweithredol am gofrestr risgiau strategol yr Awdurdod fel y cytunwyd arni eisoes. Mae'r gofrestr yn nodi risgiau hysbys a allai, o bosibl, atal yr Awdurdod rhag cyflawni ei amcanion arfaethedig a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae'r cofnodion yn y gofrestr yn cael sgorau risg sy'n cael eu hail-werthuso'n rheolaidd gan swyddogion i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a'r effaith a ragwelir o ganlyniad i gynllunio gwrth-fesurau.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.**

11 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

11.1 Fe wnaeth y PST Morris gyflwyno Steve Frank, Nick Selwyn ac Euros Lake o Swyddfa Archwilio Cymru a oedd wedi dod i gyflwyno'r adroddiad gwella blynyddol i'r aelodau.

11.2 Esboniodd Mr Selwyn fod Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal astudiaethau lleol yn ogystal ag yn cyflawni'r gwaith sydd ei angen dan y Mesur Llywodraeth Leol i edrych ar wella, amcanion ac adolygu gwaith y flwyddyn ariannol. Yn GTAGC, roedd wedi cynnal archwiliad o waith rheoli'r fflyd wen; roedd yr adroddiad yn un cadarnhaol ar y cyfan a gwnaethpwyd rhai argymhellion ar gyfer gwelliannau.

11.3 Yn ogystal â'r uchod, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru hefyd adolygu gwaith a wneir gan awdurdodau cyhoeddus o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd Euros Lake yn cwrdd â'r Prif Swyddog Tân i gytuno ar ddau faes o waith yr Awdurdod i'w hadolygu mewn perthynas â'r Ddeddf.

11.4 Dywedodd y Cyng. Lewis fod yr Awdurdod wedi arfer cael adroddiadau cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru a'i fod yn disgwyl na fyddai unrhyw broblemau yn cael eu nodi o ran adolygu camau gweithredu'r Awdurdod mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

11.5 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddwyd eisoes ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.**